

Atodiad 1: Pynciau posibl ar gyfer eu astudio 2019-20 hyd at 2021-22

Astudiaethau llywodraeth ganolog a thrawsbynciol

Pynciau a allai ddechrau yn 2019-20

1. Dadansoddiad o dueddiadau gwario cymharol y DU	Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu data ar wariant cyhoeddus ledled y DU. Byddem ni'n defnyddio'r data i gynhyrchu dadansoddiad ffeithiol, edrych ar dueddiadau dros gyfnod o amser yng Nghymru a chymharu â rhannau eraill o'r DU. Byddai'r gwaith hwn yn darparu darlun o wariant cyhoeddus a chefnogi gwaith craffu a'r ddealltwriaeth o benderfyniadau ariannol.
2. Paratodau ar gyfer Brexit	Bydd gan Brexit oblygiadau sylweddol posibl ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dechrau ar raglen o waith i ystyried paratodau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ar gyfer goblygiadau, risgiau a chyfleoedd Brexit. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu llinell sylfaen o drefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith. Gallai gwaith yn y dyfodol edrych yn fwy manwl ar wasanaeth neu faes polisi penodol sydd fwyaf agored i risgiau a chyfleoedd oherwydd Brexit.
3. Newid ymagweddau at wasanaethau cyhoeddus	Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn cyfnod o newid sylweddol. I gefnogi newid a thrawsnewidiad, byddem yn ystyried yn fanwl rhai o'r syniadau mawr sy'n cael eu harchwilio a'u profi ledled Cymru. Gallai hyn gynnwys ymagweddau megis 'cydgynhyrchu'; 'datblygiad ar sail asedau'; 'cymhlethdod a meddylfryd systemau'; 'trawma/ arfer a hysbysir gan ACE' 'dadansoddeg data' a 'gwasanaethau digidol yn gyntaf/ar-lein'. Byddai'r gwaith hwn yn dechrau yn 2019-20 ond byddai ar waith am sawl blwyddyn, gyda chynnyrch lluosog yn cynnwys adroddiadau byr a blogiau yn ogystal â gweminarau posibl a gweithgarwch arall ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddai'n cysylltu'n agos â'n gwaith Cyfnewid Arfer Da blaenorol ac yn y dyfodol.
4. Cynllunio'r gweithlu yn Llywodraeth Cymru	Mae Llywodraeth Cymru wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y staff mae'n eu cyflogi. Yn rhannol, mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu dewisiadau a wnaed mewn ymateb i bwysau ariannol. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ei gweithlu o gofio ei bod yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid.

<p>5. Gwasanaethau TGCh canolog Llywodraeth Cymru</p>	<p>Mae cytundeb Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gwasanaeth TG craidd, Merlin, yn dod i ben ym mis Ionawr 2019 a bydd y gwasanaeth yn dod yn un mewnol. Byddai astudiaeth a fyddai'n dechrau tuag at ddiwedd 2019-20 yn rhoi cyfle i ystyried y sail ar gyfer y penderfyniad hwn, gan gynnwys y costau a'r buddion disgwylidig, ac i ba raddau y mae'r trefniant newydd yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau hynny.</p>
<p>6. Cydnerthedd digidol</p>	<p>Mae cyrff cyhoeddus yn wynebu risg gynyddol o ymosodiad seiber ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi codi pryderon yn ddiweddar am seilwaith TG nad yw'n gyfredol yn y GIG. Byddai astudiaeth yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod eu systemau TG yn gydnerth, yn gadarn ac yn ddiogel er mwyn, gallu adfer systemau yn gyflym mewn achosion o ddigwyddiadau difrifol, a chadw'r gwasanaethau yn weithredol.</p>
<p>7. Atal twyll a llygredd</p>	<p>Mae colledion yn sgil twyll yn costio cannoedd o filiynau o bunnoedd y flwyddyn i sector cyhoeddus y DU. Mae sylwebyddion a dadansoddwyr yn cytuno bod nifer yr achosion o dwyll yn parhau i gynyddu ledled y DU ac yn fyd-eang. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd rhan yn y Fenter Atal Twyll Genedlaethol, sy'n rhoi darlun gwerthfawr o faint a graddau twyll ond nid yw'n rhoi gwerthusiad cadarn o'r trefniadau sylfaenol ar atal a datgelu twyll a llygredd. Byddai adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd ar draws cyrff cyhoeddus yn ategu ac yn datblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Fenter Atal Twyll Genedlaethol.</p>
<p>8. Cymwysterau Cymru</p>	<p>Roedd Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn sefydlu rheoleiddiwr arholiadau annibynnol. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio TGAU, UG a Safon Uwch a gymerir gan fyfyrwyr yng Nghymru. Ei nod yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau, yn effeithiol ac yn hybu ffydd y cyhoedd yng nghymwysterau a systemau cymwysterau Cymru. Byddai'r adroddiad hwn yn ystyried llywodraethu, strwythur a dull strategol y sefydliad newydd o gofio'r newidiadau ehangach i'r system arholiadau.</p>
<p>9. Cyllid myfyrwyr</p>	<p>Yn hydref 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yn dilyn ei hymateb Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru ym mis Medi 2016. Yn y cyd-destun hwn, byddai ein hadolygiad archwilio yn ystyried materion sy'n ymwneud â dull gweinyddu cyffredinol y system cyllid myfyrwyr, gan gynnwys gweithredu'r trefniadau newydd a modelu taliadau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Gallai gwaith yn y maes hwn o bosibl hysbysu adolygiad ehangach o'n hadroddiad yn 2013 ar Cyllid Addysg Uwch i ailystyried cyflwr ariannol cyffredinol y sector addysg uwch yng Nghymru.</p>

<p>10. Cynnig gofal plant rhad ac am ddim Llywodraeth Cymru</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithredu'r ymrwymiad ym maniffesto Llafur i gynnig 30 awr o ofal plant ar gyfer pobl sy'n gweithio ac sy'n rhieni i blant 3-4 blwydd oed. Ei nod yw cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu nifer yr oriau y maent yn eu gweithio. Mae cynlluniau treialu yn parhau. Mae'r Llywodraeth yn nodi y bydd y cynnig ar gael i bob teulu sy'n gymwys erbyn mis Hydref 2020. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi craffu ar y cynnig gan gynnwys gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y diweddaraf ym mis Gorffennaf 2018) a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Gorffennaf 2018). Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu o'r cynlluniau treialu i sicrhau bod ei buddsoddiad yn cyflawni'r buddion a fwriadwyd ac yn cyflawni gwerth am arian.</p>
<p>11. Tlodi tanwydd/ effeithlonrwydd ynni</p>	<p>Yn 2012, roedd traean o aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd (yn talu mwy na 10% o'u hincwm i wresogi eu tai). Mae gan Lywodraeth Cymru darged o ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018. Mae ganddi sawl raglen sydd â'r nod o drechu tlodi tanwydd, yn bennaf Nest ac Arbed ynghyd â rhaglenni trechu tlodi ehangach. Gallai adolygiad ystyried y cynnydd ym maes trechu tlodi tanwydd, yn enwedig y cynnydd a wnaed drwy elwa i'r eithaf ar incwm a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.</p>
<p>12. Rheoli newidiadau i gynlluniau grant</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn lleihau nifer y grantiau unigol y mae'n eu rhoi ac yn eu cyfuno â'i gilydd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfuno sawl ffrwd cyllid i ddau gynllun grant: un cynllun grant tai (Grant Cymorth Tai o £126.7 miliwn y flwyddyn) ac un cynllun grant nad yw'n ymwneud â thai (Grant Plant a Chymunedau o £134 miliwn y flwyddyn). Byddai'r astudiaeth yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli newidiadau i gynlluniau grant ac yn ystyried a yw wedi gweithredu argymhellion archwilio blaenorol ynghylch rheoli grantiau. Byddai'r astudiaeth yn ategu ein gwaith dilynol ar y rhaglen Cefnogi Pobl.</p>
<p>13. Digwyddiadau mawr</p>	<p>Roedd strategaeth Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2010 a 2020 yn nodi cyfres o ddigwyddiadau penodol yr oedd yn dymuno eu denu i Gymru yn ogystal â mesuriadau penodol o fuddion digwyddiadau mawr. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried i ba raddau y gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflawni ei hamcanion a rhoi tystiolaeth o gost a buddion digwyddiadau mawr yng Nghymru. Byddai astudiaeth yn ystod 2020 yn amserol gan y gallai'r argymhellion hysbysu'r meddylfryd wrth adnewyddu'r strategaeth.</p>

Pynciau a allai ddechrau yn 2020-21 neu 2021-22

<p>14. Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 4</p>	<p>Rydym wedi llunio tri adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus: yn 2010, 2011 a 2015. Byddai pedwerydd adroddiad yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd ariannol a chyflawni allweddol ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'n amser da i lunio adroddiad yn 2020 – 5 mlynedd ar ôl yr adroddiad diwethaf a degawd ar ôl yr adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus gwreiddiol a dynnodd sylw am y tro cyntaf at y cyfnod o doriadau i wariant yn y sector cyhoeddus.</p>
<p>15. Cynllunio ariannol y llywodraeth ganolog</p>	<p>Yn y blynyddoedd diweddar, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried yn fanwl ar gynllunio ariannol yn y GIG a llywodraeth leol, ond nid ydym wedi cynnwys llywodraeth ganolog. Mae sawl adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi amlygu gorwel byr-dymor yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, wedi'i sbarduno'n rhannol gan heriau allanol. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y dull o gynllunio ariannol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff y mae'n eu noddi. Ni fyddai'n archwilio rhinweddau penderfyniadau polisi ynghylch dyrannu cyllid.</p>
<p>16. Asesiadau o effaith o ran penderfyniadau gwario</p>	<p>Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gynnal asesiadau o effaith penderfyniadau penodol, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Gallai astudiaeth ganolbwyntio ar ddull Llywodraeth Cymru o asesu'r effaith ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyllideb, sydd wedi bod yn esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallai astudiaeth ehangach ddefnyddio dull trawsbynciol o ystyried asesiadau effaith cyllidebau ar draws sector cyhoeddus Cymru.</p>
<p>17. Buddsoddi i Arbed / Arloesi i Arbed</p>	<p>Sefydlwyd Buddsoddi i Arbed yn 2009 i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau a allai gyflawni arbedion dros gyfnod. Sefydlwyd Arloesi i Arbed mewn ymateb i adolygiadau o Buddsoddi i Arbed gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol; cwmni ymgynghori allanol a Sefydliad Polisi Cyhoeddus ar gyfer Cymru. Gallai astudiaeth ystyried y cynnydd a wnaed ers adolygiadau blaenorol, faint o arbedion a wnaed gan y cynlluniau a'r galluogwyr/rhwysrau allweddol i wneud mwy o ddefnydd o fuddsoddi i arbed.</p>
<p>18. Awdurdod Cyllid Cymru</p>	<p>Adran o Lywodraeth Cymru nad yw'n Weinidogol yw Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'n casglu ac yn rheoli 2 dreth ddatganoledig yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Amcangyfrifir bod y cyllid yn dod i gyfanswm o fwy na £1 biliwn dros 4 blynedd. Gan ddatblygu ein gwaith blaenorol ar ddatganoli ariannol, byddai'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaeth y mae Awdurdod Cyllid Cymru yn ei ddarparu i'r trethdalwyr y mae'n casglu taliadau ganddynt.</p>

<p>19. Rhagamcanion treth Trysorlys Cymru</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb am drethi datganoledig newydd, gan gynnwys trethi eiddo, trethi tirlenwi ac, o 2019-20, elfen o dreth incwm. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru bellach yn wynebu mwy o ansicrwydd yn ei chyllideb ac mae angen rhagamcanu yr incwm tebygol o'r trethi amrywiol hyn. Gan ddatblygu ein gwaith blaenorol ar ddatganoli ariannol, byddai'r astudiaeth hon yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o ragamcanu a chywirdeb ei rhagamcanion.</p>
<p>20. Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru</p>	<p>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (CBSC) yn 2012. Mae'n nodi'r uchelgais ar gyfer gwario ar seilwaith dros y 10 mlynedd nesaf hyd at 2022. Mae adolygiad canol tymor 2018 Llywodraeth Cymru o'r CBSC yn cydnabod bod angen diweddarau rhai agweddau ar ei dull er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn blaenoriaeth a deddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gallai archwiliad o weithrediad y CBSC cyfredol gyfrannu at ddatblygiad cynllun newydd yng ngwanwyn 2022.</p>
<p>21. Rheoli asedau</p>	<p>Mae cyrff cyhoeddus Cymru yn berchen ar asedau gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau, cyfleusterau chwaraeon, tir a pharciau busnes. Yn 2010, cynhyrchodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar reoli adeiladau ar draws sector cyhoeddus Cymru. Ers hynny bu ymdrechion i wella rheoli asedau, gan gynnwys drwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli eu hasedau, 10 mlynedd ar ôl y gwaith hwnnw, gyda phwyslais ar sut y maen nhw'n cydweithio i rannu asedau a lleihau costau.</p>
<p>22. Rheoli contractau</p>	<p>Dros sawl blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o achosion o reoli contract annigonol. Mae rheoli contract gwael ac annigonol yn risg enfawr i werth am arian. Mae sector cyhoeddus Cymru yn rhoi £6 biliwn y flwyddyn yn nwylo'r sector preifat a'r trydydd sector ac felly mae buddsoddiad sylweddol yn ofynnol mewn staff a gweithdrefnau o'r ansawdd cywir i atal methiannau rheoli contract mynych. Byddai'r adroddiad hwn yn ystyried y camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i sicrhau bod ganddynt weithdrefnau rheoli contract priodol ar waith.</p>
<p>23. Atal</p>	<p>Bu gwasanaethau cyhoeddus â'r nod ers cryn amser o symud pwyslais gweithgarwch oddi ar ymyrryd i ddatrys argyfyngau, tuag at atal problemau. Byddai'r darn hwn o waith yn ystyried yr hyn y mae atal yn ei olygu yn ymarferol, y buddion posibl (gan gynnwys faint o dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi honiadau o arbed costau) a'r rhwystrau allweddol i symud adnoddau tuag at weithgarwch ataliol. Byddai gan y gwaith hwn bwyslais cryf ar arfer da, a byddai'n chwilio am enghreifftiau ymarferol o atal sydd â buddion dangosadwy.</p>
<p>24. Gweithleoedd y sector cyhoeddus: cydraddoldeb</p>	<p>Mae gan gyrff cyhoeddus amrywiaeth o bolisiâu a gweithgareddau ar waith i weithredu eu dyletswyddau o ran cydraddoldeb fel cyflogwyr. Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar bob rhan o'r sector cyhoeddus i weld y dulliau o greu gweithlu sector cyhoeddus amrywiol, gan edrych yn arbennig am arferion da a diddorol i'w rhannu.</p>

<p>25. Rheoli asedau TGCh ar draws y sector cyhoeddus</p>	<p>Mae angen i gyrff cyhoeddus reoli eu hasedau TGCh i ddisodli technolegau anghyfredol, cefnogi trawsnewidiad digidol a'r agenda moderneiddio gwasanaethau. O gofio'r cyfyngiadau ar gyllid, mae cyrff cyhoeddus yn wynebu her i flaenoriaethu buddsoddiad mewn asedau TGCh. Byddai adolygiad yn ystyried y trefniadau strategol, ariannol, caffael a rheoli rhestrau eiddo sydd ar waith i gefnogi rheoli cylch bywyd yr holl asedau TG.</p>
<p>26. Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)</p>	<p>Yn 2007 y lansiwyd PSBA, rhwydwaith a reolir ledled Cymru sy'n cysylltu sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru â Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) preifat a diogel. Mae'r rhwydwaith yn darparu gwasanaethau rhwydwaith TGCh i fwy na 100 o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru gan gefnogi bron i 5000 o safleoedd cyhoeddus ledled y wlad. Mae BT yn cyflenwi'r rhwydwaith ledled Cymru ar hyn o bryd drwy gontract â Llywodraeth Cymru a lofnodwyd ym mis Hydref 2014. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried pa un a gafodd Llywodraeth Cymru fargen dda ac a yw cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio'r rhwydwaith yn gwneud y defnydd gorau o'i fuddion posibl.</p>
<p>27. Cyllid Busnes 2</p>	<p>Ym mis Rhagfyr 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru ei 'Chynllun Gweithredu ar yr Economi' i gefnogi ei strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb', sydd â'r nod o dyfu Economi Cymru a lleihau anghydraddoldeb. Rhan o'r cynllun gweithredu hwn yw darparu cymorth ariannol i fusnesau. Ym mis Tachwedd fe wnaethom adrodd ar ddarpariaeth Llywodraeth Cymru o gymorth busnes ar gyfer busnes o dan ei dull strategol blaenorol, 'Adnewyddu'r Economi'. Byddwn yn gwneud mwy o waith i edrych yn fanwl ar y modd o wneud penderfyniadau a rheolaethau dros gyllid busnes, yng nghyd-destun ei strategaeth a ddiweddarwyd.</p>
<p>28. Bargeinion Dinesig</p>	<p>Ceir tair prif fargen ledled Cymru: Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a Bargaen Twf y Gogledd. Er y bu gan yr awdurdodau lleol perthnasol swyddogaeth allweddol, mae sefydliadu eraill yn cymryd rhan gynyddol, yn fwyaf nodedig Llywodraeth Cymru a chyrrff y GIG. Gallai astudiaeth ystyried y bargeinion dinesig yng nghyd-destun ehangach datblygiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol a strategaethau adnewyddu, gan ddatblygu gwaith archwilio lleol sydd eisoes yn mynd rhagddo.</p>
<p>29. Datblygu cysylltiadau rhyngwladol</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn Ffyniant i Bawb, ei bod yn bwriadu defnyddio dull strategol o ehangu swyddfeydd rhyngwladol, yn seiliedig ar asesiad o gyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau Cymru. Bydd cyllideb o £6.4 miliwn yn 2019-20 yn cefnogi'r ehangiad hwn. Byddai astudiaeth yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y gwaith hwn, sut y mae'n nodi'r cyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau Cymru a sut y mae'n bwriadu rheoli ehangiad ei swyddfeydd rhyngwladol.</p>

30. Banc Datblygu Cymru	<p>Sefydlwyd Banc Datblygu Cymru ym mis Hydref 2017, a'i nod yw llenwi bwlch buddsoddi blynyddol o £500 miliwn ar gyfer busnesau bach a chanolig Cymru. Ei fwriad yw creu mwy na £1 biliwn o gymorth buddsoddi ar gyfer Cymru dros y pum mlynedd nesaf ac mae ganddo sawl targed uchelgeisiol arall. Gallai astudiaeth yn y maes hwn ddarparu rhywfaint o atebion cynnar ynghylch pa un a yw Banc Datblygu Cymru newydd yn cyflawni'r amcanion hyn ac yn perfformio'n well na'i ragflaenydd Cyllid Cymru, a ystyriwyd yn anaddas i'w ddiben mewn adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>
31. Trafnidiaeth integredig (pwyslais posibl ar gerdded a beicio)	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflawni rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus sy'n ei gwneud yn haws i gerddwyr a beicwyr integreiddio eu teithiau â chcludiant cyhoeddus. Yn ddiweddar dywedodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau mai diffyg arweinyddiaeth, cyllid ac uchelgais oedd ar fai am y diffyg canlyniadau sylweddol yn y maes hwn hyd yn hyn. Gallai'r astudiaeth hon ystyried cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio mathau o deithio llesol â systemau trafndiaeth gyhoeddus neu gallai ganolbwyntio yn fwy eang ar ddull strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru o ymdrin â thrafnidiaeth integredig.</p>
32. Teithio ar fysiau / tocynnau teithio rhatach	<p>Er ei fod yn hollbwysig i lawer o bobl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, mae'r diwydiant bysiau mewn trafferthion. Mae niferoedd teithwyr, llwybrau bysiau a chymhorthdal cyhoeddus i gyd yn gostwng. Darperir rhan sylweddol o'r cyllid cyhoeddus drwy gynlluniau Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus ar ddyfodol y cynlluniau hyn yn ddiweddar. Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun pum pwynt i geisio sefydlogi a chefnogi'r diwydiant yn y tymor byr a dod o hyd i atebion hirdymor. Gallai'r gwaith hwn ystyried y cynnydd o'i gymharu â'r cynllun pum pwynt ac unrhyw faterion ehangach sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o wasanaethau bysiau.</p>
33. Diweddariad ar Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan y Mileniwm	<p>Cyd-ariannwyd nifer o brosiectau yng Nghymru gan Gomisiwn y Mileniwm a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol ar ddau aeth i anawsterau ariannol sylweddol (Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Tachwedd 2005 a Canolfan y Mileniwm, Chwefror 2008¹). Roedd y cynlluniau busnes ar gyfer y ddau yn nodi yn wreiddiol y byddent yn hunanariannu; mae'r ddau sefydliad yn cael grantiau ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i dalu costau gweithredu. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried gwerth am arian parhaus ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyllid cyhoeddus arall ar gyfer y ddau brosiect.</p>

¹ Fersiwn wedi'i archifo o'r adroddiad

34. Cyfoeth Naturiol Cymru	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, sydd â gwariant o oddeutu £190 miliwn yn 2017-18 a staff o 1,900 ledled Cymru. Adroddwyd gennym ar ddatblygiad cynnar Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Chwefror 2016 ac rydym wedi archwilio contractau gwerthu coed yn rhan o'n harchwiliad o gyfrifon, gan adrodd ddiweddaraf ym mis Gorffennaf 2018. Gallai astudiaeth yn y dyfodol ystyried datblygiad parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru, ond gyda phwyslais penodol ar faes neu feysydd penodol o'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau eang a chymhleth, sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r amgylchedd, yr economi ac ansawdd bywyd. Nid ydym wedi penderfynu eto beth fyddai'r union faes o gyfrifoldeb y byddem yn ei archwilio.</p>
35. Ansawdd aer	<p>Mae ansawdd aer yng Nghymru gyda'r gwaethaf yn y DU, ac yn cyfrannu at oddeutu 2,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae deddfwriaeth ar ansawdd aer yn bennaf wedi'i gosod drwy safonau'r UE sydd wedi eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig y DU a chyfraith Cymru. Yn dilyn achos llys, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn diweddarau eu cynlluniau i leihau llygredd yn yr aer. Rheolir ansawdd aer yn bennaf drwy gynlluniau a strategaethau ar lefel awdurdod lleol. Gallai astudiaeth ystyried arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ran ymdrechion i wella ansawdd aer, a gallai hefyd gwmpasu gwaith cynllunio llywodraeth leol a gwaith i wella ansawdd aer yn lleol.</p>
36. Bioamrywiaeth	<p>Ceir tystiolaeth fod rhai o'r rhywogaethau sydd fwyaf dan fygythiad yng Nghymru wedi dirywio dros y degawd diwethaf ac mae llawer ohonynt dan fygythiad o ddiflannu. Gallai astudiaeth ystyried pa un a yw Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru mewn sefyllfa dda i allu arwain a hwyluso'r cydweithrediad traws-sector sydd ei angen i gyflawni newid sylweddol yng nghydnherthedd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol Cymru.</p>
37. Datgarboneiddio gwasanaethau cyhoeddus	<p>Mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol am lai nag 1% yn unig o gyfanswm allyriadau yng Nghymru ond mae ganddo swyddogaeth allweddol wrth ddylanwadu ar leihau allyriadau; drwy arferion caffael, drwy ei swyddogaeth arwain, a thrwy gyflawni gwasanaethau. Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, yn cynnwys ymrwymiad i ddatgarboneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Gallai astudiaeth fer ystyried arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ymdrechion i leihau allyriadau carbon. Gallai hyn hefyd ymestyn i ystyried ymdrechion ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.</p>
38. Clefydau anifeiliaid	<p>Gall achosion o glefydau anifeiliaid gael effaith ddwys ar yr economi wledig, lles ffermwyr a chost uchel i'r pwrs cyhoeddus. Ceir darlun cymhleth o reolau cenedlaethol a rheolau'r UE sy'n llywodraethu lles anifeiliaid a'r dull o reoli achosion o glefydau. Byddai astudiaeth yn y maes hwn yn archwilio dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chlefydau anifeiliaid, gan gynnwys ei dull o atal clefydau a chynlluniau wrth gefn ar gyfer achosion o glefyd.</p>

<p>39. Diwygio'r cwricwlwm</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r rhaglen fwyaf o ddiwygio'r cwricwlwm ers cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol ym 1988. Mae'n bwriadu cyflwyno cwricwlwm newydd o'r blynyddoedd cynnar i flwyddyn 7 o fis Medi 2022. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried parodrwydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i weithredu'r cwricwlwm a'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r newid.</p>
<p>40. Cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol</p>	<p>Mae Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu fframwaith statudol ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod y cyfnod craffu ar y Bil, newidiodd amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gostau a buddion y trefniadau newydd, gan arwain at Bwyllgor Cyllid y Cynulliad yn mynegi pryder am y tybiaethau y seiliwyd yr amcangyfrifon arnynt. Gallai astudiaeth ystyried cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynnydd o'i gymharu â'r cynllun trawsnewid. Gallai astudiaeth ehangach gynnwys parodrwydd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer gweithredu'r fframwaith newydd a sylwadau cynnar gan ysgolion a dysgwyr.</p>
<p>41. Cyngor gyrfaoedd</p>	<p>Mae'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor gyrfaoedd wedi'i dargedu i helpu pobl ifanc i gael swyddi. Gyrfa Cymru yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer cyngor gyrfaoedd a chymorth i bobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed, ond mae ei gyllid craidd wedi'i leihau'n sylweddol. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae cyngor gyrfaoedd wedi addasu i'r cyllid a phwysau eraill a'r goblygiadau i fyfyrwyr.</p>
<p>42. Tai fforddiadwy</p>	<p>Mae darparu tai fforddiadwy yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb. Mae gan Lywodraeth Cymru darged o adeiladu 20,000 o gartrefi erbyn 2021. Mae'n rhedeg sawl cynllun i ysgogi adeiladu tai a hefyd i gynorthwyo pobl i brynu eu cartrefi eu hunain. Comisiynodd y Gweinidog Tai ac Adfywio adolygiad annibynnol i'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2018. Gallai astudiaeth ystyried effeithiolrwydd a chydlyniant y gwahanol gynlluniau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rheoli, gan gynnwys unrhyw amrywiadau mewn costau a gwerth am arian. Gallai hefyd gynnwys adolygiad o gyfraniad cynghorau gan gynnwys cadernid asesiadau o farchnadoedd tai lleol.</p>
<p>43. Prif ffrydio trechu tlodi</p>	<p>Cymunedau'n Gyntaf oedd rhaglen trechu tlodi flaenllaw Llywodraeth Cymru a chanddi gyllideb o oddeutu £30 miliwn y flwyddyn. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r rhaglen yn dirwyn i ben yn raddol erbyn mis Mawrth 2018 ac yn cael ei disodli gan ddull cyfannol 'llywodraeth gyfan' i drechu tlodi sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, y blynyddoedd cynnar a grymuso. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r cyfnod pontio a'r broses o brif-ffrydio dull newydd o drechu tlodi.</p>

<p>44. Tasglu'r Cymoedd</p>	<p>Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Tasglu Gweinidogol Cymoedd De Cymru 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' – cynllun uchelgeisiol lefel uchel, yn nodi amrywiaeth eang o gamau i weddnewid cymunedau ledled y Cymoedd. Ar ôl cyhoeddi Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, mae'r tasglu wedi datblygu a chyhoeddi cynllun cyflawni manwl, sy'n dangos sut y caiff y blaenoriaethau a'r camau eu cyflawni erbyn 2021. Gallai'r astudiaeth ystyried y cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu yn y cynllun, gan gynnwys sefydlu saith canolfan strategol, a pha un a ydynt yn helpu i gyflawni'r amcanion ehangach neu'n gweddnewid cymunedau'r Cymoedd ai peidio.</p>
<p>45. Gwneud mwy o weithgarwch corfforol</p>	<p>Amcangyfrifir bod cost anweithgarwch corfforol i Gymru yn £650 miliwn y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal lefel y cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod 2018-19 ac mae wedi ymrwmo i gynyddu gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag, ni chofnodwyd unrhyw newid sylweddol mewn gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion rhwng 2016-17 a 2017-18. Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn cynnal ymchwiliad i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu gwerth am arian yr ymdrechion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i hybu gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp oedran.</p>
<p>46. Gwasanaethau cyhoeddus ar ddiwedd oes</p>	<p>Mae arolygon yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn dymuno marw gartref. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf yn marw mewn ysbyty ac yn treulio amser sylweddol yno yn ystod eu blynyddoedd olaf – a hynny am gost sylweddol. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r costau sy'n gysylltiedig â blynyddoedd olaf bywyd ac yn edrych am ffyrdd y gallai gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd fod wedi galluogi mwy o bobl i gael profiad diwedd oes gwell, am gost lai.</p>
<p>47. Cynyddu datblygiadau tai a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer gofal cymdeithasol</p>	<p>Yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn adeiladu mwy o ddatblygiadau tai wedi'u hadeiladu'n bwrpasol a fyddai'n galluogi pobl i fyw yn annibynnol mewn amgylchedd a ddiogelir ac a warchodir, wedi'u lleoli yn agos i gludiant cyhoeddus hygyrch a hawdd cael gafael arno. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried y cynlluniau a'r trefniadau sylfaenol ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn.</p>

<p>48. Trechu gordewdra</p>	<p>Mae gordewdra yn un o'r heriau iechyd cyhoeddus mwyaf sy'n wynebu Cymru ac iddo nifer o risgiau iechyd cysylltiedig, a chostau sylweddol cysylltiedig i'r GIG. Mae 59% o oedolion ac un o bob pedwar plentyn yng Nghymru naill ai dros bwysau neu'n ordew. Mae 'Llwybr Gordewdra Cymru' yn disgrifio 4 haen o ymyraethau y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd eu sefydlu ar gyfer plant ac oedolion. Ynghyd â hyn ceir cyfres o fentrau cenedlaethol a lleol eraill sy'n gysylltiedig â gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach. Bu hefyd newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Deddf Teithio Llesol (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gallai astudiaeth archwilio sut y defnyddir y llwybr gordewdra i sbarduno newid a sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyd-weithio i drechu tlodi a chreu'r newid ymddygiad sy'n ofynnol i sicrhau gwelliannau.</p>
<p>49. Iechyd a thai</p>	<p>Ceir cysylltiad hirsefydledig rhwng tai ac iechyd pobl. Gall tai gwael, sy'n aml yn cyd-fynd â thlodi tanwydd, achosi amrywiaeth o broblemau iechyd corfforol a gall hefyd effeithio ar iechyd meddwl pobl. Gan ddatblygu ein hadroddiad Addasiadau Tai 2018 a chymhwyso egwyddorion gofal iechyd darbodus, byddai'r adolygiad hwn yn darparu cyfle i asesu pa mor dda y mae'r gwasanaeth iechyd ac asiantaethau partner yn cyd-weithio i sicrhau gwelliannau iechyd drwy well tai. Byddai angen cwmpasu ehangder y pwnc yn ofalus i ganolbwyntio'r gwaith ar feysydd lle y ceir yr effaith fwyaf. Gallai hyn gynnwys modelu economaidd i ddarparu asesiad dangosol o effaith tai ar iechyd, yn ariannol ac o ran canlyniadau iechyd. Gallai hefyd gynnwys adolygiad o arfer da presennol ac asesiad o'r hyn a fyddai ei angen i gyflwyno hyn ar raddfa fwy, gan roi darlun o'r rhwystrau i lwyddiant a'r hyn a fyddai'n galluogi lwyddiant.</p>
<p>50. Cyflwyno / gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)</p>	<p>Yn ein hadroddiad ym mis Ionawr 2018 ar y systemau gwybodeg yn GIG Cymru fe wnaethom grybwyll y cynlluniau ar gyfer WCCIS. Bwriad y system yw rhoi'r gallu i ofalwyr, therapyddion, gweithwyr iechyd meddwl a nyrsys cymunedol rheng flaen gyd-gysylltu achosion cleifion drwy gofnod gofal electronig a rennir gyda'r nod o wella triniaeth. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru £6.7 miliwn i ariannu'r costau sefydlu ar gyfer Cymru gyfan, a darparwyd £2 filiwn arall drwy'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi gweithrediad yn ystod 2016 a 2017. Fodd bynnag, ym mis Mai 2018, adroddwyd mai dim ond 11 awdurdod lleol ac un bwrdd iechyd a oedd wedi gweithredu WCCIS. Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried effeithiolrwydd y trefniadau gweithredu cenedlaethol a lleol a byddai'n ystyried pa un a yw'r buddsoddiad hyd yn hyn wedi darparu gwerth am arian.</p>

Astudiaethau cysylltiedig â iechyd

Pwnc	Disgrifiad
1. Cynnydd wrth gyflawni 'Cymru Iachach'	Cymru Iachach yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'n ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyfres o adolygiadau fyddai hyn, yn archwilio pa un a yw Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi cyflawni'r camau gweithredu a nodir ar gyfer diwedd pob blwyddyn ac yn nodi cynnydd o'i gymharu â chamau gweithredu eraill a nodau ehangach Cymru Iachach. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei lunio yn 2019-20 a gallai ganolbwyntio'n arbennig ar y cynnydd a wneir gan fyrddau rhaglen cenedlaethol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Sylfaenol. Mae sawl adroddiad diweddar gan SAC wedi codi pryderon nad yw'r byrddau hyn yn cael yr effaith a fwriedir.
2. Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP)	Mae'r NWSSP yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau – gan gynnwys gwasanaethau contractio gofal sylfaenol, rheoli cyfleusterau, cyflogaeth, cyfreithiol a risg, ac archwilio mewnol – ac mae'n dylanwadu ar nifer sylweddol o wariant y GIG. Trwy ganolbwyntio ar un neu fwy o agweddau ar ei waith, byddai'r astudiaeth hon yn archwilio perfformiad NWSSP wrth symleiddio swyddogaethau swyddfa gefn, cyflawni'r gwerth uchaf o ran gwariant y GIG, a gwella cyflawniad gwasanaethau.
3. Gwasanaethau Iechyd meddwl amenedigol	Mae 1 ym mhob 10 o fenywod yn dioddef salwch meddwl yn ystod beichiogrwydd neu yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl genedigaeth. Mae Ffyniant i Bawb, y strategaeth genedlaethol, yn cynnwys ymrwymiad i greu gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol cymunedol newydd ac adolygu'r angen am gyfleusterau cleifion mewnol yng Nghymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1.5 miliwn o gyllid i ddatblygu gwasanaethau cymunedol yn 2016 a mwy o gyllid a fydd ar gael yn 2017-20 yn rhan o'i buddsoddiad ychwanegol gwerth £20 miliwn mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Iasbrint ar gyfer gwasanaethau iechyd amenedigol ym mis Gorffennaf 2018. Gallai'r astudiaeth hon archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ledled Cymru, ac effeithiolrwydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru.
4. Cronfa Trawsnewid y GIG	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cronfa gwerth £100 miliwn y flwyddyn i drawsnewid gwasanaethau'r GIG. Gallai'r astudiaeth hon archwilio sut y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gronfa a thystiolaeth gynnar o newid er gwell. Rydym o'r farn y byddai'n well cynnal yr astudiaeth hon yn ystod ail neu drydedd flwyddyn ein cynllun, er mwyn rhoi cyfle i'r gronfa ymsefydlu.

<p>5. Rheoli a bodloni galw am ofal heb ei drefnu</p>	<p>Canfu ein hadroddiad yn 2013, er gwaethaf pwyslais sylweddol ar ofal heb ei drefnu, nad oedd newidiadau trawsnewidiol i gefnogi gwelliant parhaus wedi'u gweithredu'n llawn. Mae problemau'n parhau o ran cynnydd yn y galw, cyfyngiadau ariannol, heriau gweithlu a phroblemau o ran llif cleifion drwy'r ysbyty. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pa un a yw GIG Cymru wedi gwneud cynnydd ar argymhellion lleol a chenedlaethol a nodwyd yn ein gwaith blaenorol. Gallai fod â phwyslais penodol ar fentrau fel y gwasanaeth 111 newydd a Dewis Doeth, yn ogystal ag ystyried sut y mae'r system ehangach yn ymdrin â heriau blynyddol fel oedi wrth drosglwyddo o ambiwlans, a materion eraill a amlygwyd yn yr 'adolygiad oren' diweddar o alwadau i Wasanaeth Ambiwllans Cymru.</p>
<p>6. Cyflawni'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Anadlol 2018-2020</p>	<p>Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'w Gynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Anadlol ar gyfer y cyfnod 2018-2020. Mae'r cynllun yn amlygu'r angen i leihau amrywiaeth a rhannu arferion gorau, ac mae'n nodi'r camau y bydd GIG Cymru yn eu cymryd i ymateb i hyn. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa un a yw GIG Cymru yn cyflawni'n effeithiol o ran y cynllun. Gallai hyn gynnwys pwyslais manwl ar un neu fwy o feysydd ataliol neu ddiagnosis cynnar, fel ysmegu, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) neu asthma. Gallai'r astudiaeth ystyried hefyd uchelgais y cynllun a'r meini prawf llwyddiant.</p>
<p>7. Rhagnodi gwrthficrobaidd</p>	<p>Oni bai yr ymdrinnir ag ymwrthedd i gyffuriau mewn modd systematig sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, ceir risg y byddwn yn dychwelyd i oes pan allai heintiau cyffredin a mân heintiau fygwth bywyd. Ceir nifer cynyddol o enghreifftiau o ragnodi gwrthfotigau, ac amrywiaeth sylweddol mewn ymddygiad rhagnodi oedd rhai o'r ffactorau a oedd yn sail i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar Ymwrthedd i Gyffuriau yn 2016. Gallai astudiaeth archwilio gweithrediad y cynllun cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau allweddol mewn ymwrthedd i gyffuriau, rhagnodi gwrthfotigau a heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gallai hefyd ystyried cynnydd o ran hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater ac o'r adegau pan nad yw rhagnodi gwrthfotigau yn briodol yn glinigol, a'r rhesymau am hynny.</p>
<p>8. Gweithdrefnau o werth clinigol cyfyngedig</p>	<p>Egwyddor allweddol o ofal iechyd darbodus yw gwneud yr hyn sydd ei angen yn unig, dim mwy, dim llai, a pheidio â pheri niwed. Mae NICE a chyrff cynghori cenedlaethol eraill wedi nodi gweithdrefnau â gwerth clinigol cyfyngedig, neu ymyraethau na chânt eu defnyddio fel arfer, fel gweithdrefnau nad oes iddynt dystiolaeth ddigonol o effeithiolrwydd clinigol neu o ran cost neu sy'n flaenoriaeth gymharol isel o ran adnoddau'r GIG.</p> <p>Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio i ba raddau y defnyddir gweithdrefnau â gwerth clinigol cyfyngedig ledled Cymru. Byddai'r astudiaeth hon hefyd yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith mewn byrddau iechyd i fonitro cydymffurfiaid â'r rhestr gydnabyddedig o weithdrefnau.</p>

<p>9. Gwerth am arian o ran ymgynghorwyr rheoli</p>	<p>Mae cyrff y GIG yn aml yn ymgysylltu ag ymgynghorwyr rheoli er mwyn helpu i nodi atebion i faterion mewn meysydd yn cynnwys cynllunio strategol, llywodraethu ariannol a chorfforaethol, ail-lunio gwasanaethau, a datblygu ffyrdd mwy effeithlon a diogel o weithio. Byddai'r astudiaeth hon yn ceisio meintioli gwariant cyrff y GIG ar ymgynghorwyr rheoli yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac adolygu'r trefniadau caffael a rheoli contractau sydd ar waith gan gyrff y GIG i sicrhau eu bod yn cael gwerth da o'r gwariant hwn. Gallai hefyd geisio deall y ffactorau sy'n ysgogi'r defnydd o ymgynghorwyr rheoli yn y GIG.</p>
<p>10. Hybu hunanofal effeithiol</p>	<p>Mae hunanofal wedi dod yn gynyddol bwysig i'r GIG. Mae cyllidebau yn dod yn anos i'w rheoli yn sgil y baich cynyddol ar iechyd a achosir gan gyflyrau hirdymor, poblogaeth sy'n heneiddio a chyflyrau'n ymwneud â dewisiadau ffordd o fyw megis ysmegu. Mae atal clefyd a chynyddu ymdrechion i addysgu a chefnogi cleifion i reoli eu hiechyd eu hunain yn ateb allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Gallai'r astudiaeth hon edrych i ba raddau y mae cyrff y GIG yn hybu hunanofal effeithiol ar draws eu cymunedau. Gallai'r astudiaeth foddelu'r manteision posibl megis llai o ymweliadau gan feddyg teulu, apwyntiadau cleifion allanol a derbyniadau i'r ysbyty a defnydd mwy effeithiol o feddyginiaethau a all gronni wrth sefydlu rhaglenni hunanofal i gleifion. Gallai hefyd edrych ar rai o'r galluogwyr allweddol sydd angen eu rhoi ar waith i gefnogi cyflwyno rhaglenni o'r fath yn effeithiol.</p>
<p>11. Rheoli clwyfau</p>	<p>Mae gofalu am glwyfau yn dipyn o epidemig tawel. Ledled y DU, amcangyfrifir bod o leiaf £4 biliwn y flwyddyn yn cael ei wario ar ofalu am glwyfau (o leiaf 5% o gyllid cyfan y GIG). Yng Nghymru, mae'r gwariant ar orchuddion clwyfau yn unig mewn lleoliadau aciwt a chymunedol dros £12 miliwn y flwyddyn. Er y bu mentrau arbed costau i helpu i reoli gwariant, mae'n debygol y ceir posibiladau sylweddol i wneud mwy o arbedion wrth archebu a chyflenwi gorchuddion a thrwy gael gwared ar gostau diangen a gwastraff. Mae rheoli clwyfau'n well hefyd yn gwella ansawdd gofal cleifion. Gallai astudiaeth archwilio'r materion hyn ac edrych yn ehangach ar y cynnydd a wneir drwy gyflwyno arfer gorau a gydnabyddir o ran atal a thrin, gan gynnwys gwaith Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru a agorwyd ym mis Medi 2014.</p>
<p>12. Gwastraff clinigol</p>	<p>Yn 2013, gwariodd y GIG yng Nghymru a Lloegr dros £86 miliwn ar gael gwared ar wastraff clinigol. Roedd disgwyl i'r swm hwn gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i dirilenwi ddod yn ddrytach ochr yn ochr â'r angen i gyrff y GIG ddod yn fwy cynaliadwy. Bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar effeithiolrwydd dulliau gweithredu cyrff y GIG o ran rheoli gwastraff clinigol yng nghyd-destun canllawiau deddfwriaethol ac arfer da, targedau ailgylchu a nodau cynaliadwyedd ehangach.</p>

<p>13. Absenoldeb oherwydd salwch / lles staff y GIG</p>	<p>Mae oddeutu 5.7 y cant o amser staff y GIG yn cael ei golli drwy absenoldeb oherwydd salwch ledled Cymru ar hyn o bryd: y lefel uchaf er 2010. Amcangyfrifir bod cost uniongyrchol y lefel hon o absenoldeb oherwydd salwch oddeutu £120 miliwn, heb gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â defnyddio gweithwyr llanw megis rhai banc a locwm. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau absenoldeb oherwydd salwch ar draws cyrff y GIG, ond gallai hefyd edrych i weld a oes digon o bwysau yn cael ei roi ar hybu iechyd a lles y cyflogai.</p>
<p>14. Ymdrin â heriau'r gweithlu yn y GIG</p>	<p>Mae cyfyngu ar gyflogau ynghyd â galw cynyddol am wasanaethau yn cynrychioli dim ond rhai o'r heriau recriwtio a chadw ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae prinder staff wedi creu mwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth gyda goblygiadau costau sylweddol. Mewn nifer o wasanaethau, mae ysbryd staff wedi dod yn broblem, felly hefyd yr ansicrwydd ynghylch Brexit. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymadau clir i weithredu i ddenu a hyfforddi mwy o weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw yn enghraifft o weithredu o'r fath. Hefyd, crëwyd awdurdod iechyd arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru i chwarae rhan allweddol mewn addysgu, hyfforddi a datblygu'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Gallai astudiaeth edrych ar y cynnydd a wneir o ran datblygu modelau gweithlu mwy cynaliadwy ar gyfer y GIG sy'n mynd i'r afael â heriau'r gweithlu ar hyn o bryd ac yn y tymor hwy. Petai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu, byddem ni'n ceisio trefnu ei fod yn cyd-fynd yn briodol ag unrhyw waith penodol gan lywodraeth leol yn ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi sylwadau ar ddatblygiad gweithlu integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol</p>
<p>15. Offer clinigol</p>	<p>Amcangyfrifwyd bod cost cyfarpar y GIG ac asedau eraill y nodir eu bod y tu hwnt i'w hoes economaidd ddefnyddiol oddeutu £300 miliwn. Mae'r asedau hyn yn cynnwys cyfarpar clinigol y mae cyrff y GIG yn cael trafferth yn eu cynnal, gan greu problemau yn y dyfodol. Mae costau darparu cyfarpar newydd ynghyd â chynnal a chadw ôl-groniad o asedau yn uwch o lawer na'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer cyrff y GIG, yn erbyn cefnlen o gyllido cyfalaf yn ôl disgrisiwn sy'n lleihau. Yn ogystal â risgiau ariannol sylweddol, mae cyfarpar sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes yn creu risgiau i ansawdd, diogelwch a'r ddarpariaeth o wasanaeth. Byddai'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar werth am arian gan roi pwyslais arbennig ar effeithiolrwydd dulliau strategol cyrff iechyd wrth newid a chynnal cyfarpar.</p>

Astudiaethau llywodraeth leol

<p>1. Mentrau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a'r sector preifat</p>	<p>Mae llywodraeth leol yn parhau i arloesi a newid wrth chwilio am ffyrdd i amddiffyn gwasanaethau y rheng flaen. O ystyried y twf mewn mentrau ar y cyd, a'r risgiau cynhenid a gyflwynir i gynghorau a dinasyddion pan nad yw'r modelau darparu newydd hyn yn gweithio, byddai hyn yn canolbwyntio ar adolygu pa un a yw cynghorau wedi sefydlu fframweithiau cadarn ar gyfer ystyried cyd-fentrau, sefydlu modelau darparu a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd newydd hyn o weithio. Byddem yn ceisio canfod astudiaethau achos o Loegr lle mae'r mentrau ar y cyd wedi eu sefydlu'n well gan ddefnyddio ein canfyddiadau i ddatblygu pecyn cymorth a nodyn cynghori ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.</p>
<p>2. Mentrau cymdeithasol</p>	<p>Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn gyfryngau mwyfwy cyffredin ar gyfer darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaeth 'hanfodol' i awdurdod ond sy'n dal yn bwysig i'r gymuned leol. Mae'r model hwn yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Wrth ystyried model menter gymdeithasol ar gyfer darparu gwasanaeth, mae'n hanfodol bod yn glir ynghylch y model cywir o fenter gymdeithasol, bod y ffrwd incwm yn gynaliadwy, bod cynllun busnes clir ar waith; a datblygu'r strwythurau cywir gan gynnwys y bobl gywir yn gynnar. Byddai'r adolygiad yn edrych ar gryfder achosion busnes a'r effaith ar benderfyniadau awdurdodau lleol. Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu deunydd cymorth ynghylch cyflwyno menter gymdeithasol lwyddiannus.</p>
<p>3. Effeithiolrwydd allanoli gwasanaethau awdurdodau lleol i fusnesau preifat</p>	<p>Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar y gwerth am arian y mae awdurdodau lleol yn ei gyflawni drwy eu dulliau ar gyfer allanoli. Bydd yr adolygiad yn ystyried pa un a yw'r arbedion ariannol a ragwelwyd wedi eu gwireddu; ansawdd gwasanaethau i ddinasyddion; pa un a yw anghenion yn cael eu bodloni; a pha fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau atebolrwydd. Bydd yr adolygiad yn nodi ffactorau sy'n cyfrannu at fethiant gwasanaethau; yn adolygu polisïau comisiynu a chaffael cynghorau; contractau, arfarnu dewisiadau a thendro dogfennau; ac yn archwilio data perfformiad hydredol.</p>
<p>4. Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol</p>	<p>Mae'r angen i edrych ar ffyrdd gwahanol o wneud arbedion, diogelu gwasanaethau a chreu incwm yn bwysig ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Nid yw masnacheiddio gwasanaethau cyhoeddus yn rhywbeth newydd, ond mae ffyrdd y sector cyhoeddus o ddarparu gwasanaethau wedi dod yn fwy entrepreneuriaidd a dyfeisgar yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ystyried y risg gynhenid wrth ymestyn gweithgarwch masnachol i feysydd na weithredid ynddynt yn draddodiadol, bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar waith cynghorau o greu rhagolygon masnachol cryf, sut y maen nhw'n datblygu sgiliau masnachol, eu polisïau, eu gweledigaeth, eu galluoedd monitro ac adrodd a'u seilwaith cyflawni ehangach. Byddem yn ceisio defnyddio ein canfyddiadau i ddatblygu deunyddiau cymorth i helpu awdurdodau i ddatblygu eu gweithgareddau masnachol ac i nodi peryglon cyffredin er mwyn eu hosgoi.</p>

<p>5. Effeithiolrwydd darparu gwasanaethau awdurdodau lleol yn rhanbarthol</p>	<p>Yn gynnar yn 2017, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch cynigion ar gyfer mwy o gydweithio rhanbarthol. Yn ei phapur Gwyn, cydnabu Llywodraeth Cymru nad yw gweithio rhanbarthol yn hawdd. Mae'n gofyn am ymrwymiad ac ymroddiad; mae'n rhaid ei adeiladu ar sylfaen o ymddiriedaeth a pharodrwydd i gyfaddawdu er y lles cyffredinol. Mae angen eglurder pwrpas arno o ran yr hyn y mae'r cydweithio yn ceisio ei gyflawni, a hefyd eglurder ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau, llywodraethu, atebolrwydd ac ariannu mecanweithiau; nid ar gyfer y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn unig, ond ar gyfer y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pa un a yw awdurdodau lleol yn eglur ynghylch eu canlyniadau wrth iddynt weithio'n rhanbarthol a pha un a yw trefniadau llywodraethu yn ysgogi gwelliannau mewn canlyniadau i bobl.</p>
<p>6. Gwasanaethau canolfannau galw / pwynt cyswllt cyntaf awdurdodau lleol</p>	<p>Yng nghyd-destun disgwyliadau cynyddol y cwsmer a chyllidebau llai, mae canolfannau cyswllt sy'n darparu gwasanaethau deinamig i gwsmeriaid yn chwarae swyddogaeth allweddol wrth reoli gofynion, lleihau camgymeriadau a chyflawni arbedion costau ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i lywodraeth leol sicrhau hefyd bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn parhau i ddiwallu anghenion dinasyddion, yn cael eu cyflawni ac ar gael mewn ffyrdd sy'n gwarantu bod iawnderau a hawliau dinasyddion yn cael eu bodloni. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau cyswllt llywodraeth leol i nodi arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau o ran sut y mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau cyswllt rheng flaen i ddinasyddion. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud drwy gymryd sampl o awdurdodau lleol a byddem hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion am eu blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol, a hefyd, y gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt.</p>
<p>7. Effaith cyni ar wasanaethau yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol</p>	<p>Ar adeg pan fo gan awdurdodau lleol lai o adnoddau ar gael i ddarparu gwasanaethau a phan fo'r galw am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cynyddu, mae perygl o golli gwasanaethau yn ôl disgrisiwn. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn deall ac yn cynllunio ar gyfer y bobl hynny y mae angen gwasanaethau yn ôl disgrisiwn arnynt, a pha mor dda y maent yn diwallu eu hanghenion. Bydd yr adolygiad yn edrych ar faint o newidiadau mewn darpariaeth yn ôl disgrisiwn a welwyd ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Oherwydd ehangder y gweithgareddau, rydym yn awgrymu gwasanaeth (neu wasanaethau) olrhain i ddeall gwir effaith colli gwasanaethau yn ôl disgrisiwn ar yr awdurdod lleol, ei ddinasyddion, a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd. Bydd yr astudiaeth yn cyfrannu at ddealltwriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac, yn arbennig, ffyrdd ataliol o weithio.</p>

<p>8. Awdurdodau lleol yn adeiladu cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau</p>	<p>Mae corff cynyddol o ymchwil wedi darparu tystiolaeth glir bod cyfalaf cymdeithasol yn gysylltiedig â lefelau uwch o les, hunanddibyniaeth, a chydnerthedd cymunedol. Mae awdurdodau lleol yn gorfod wynebu cyfnodau estynedig a pharhaol o setliadau llym gan ymdrin â galwadau cynyddol ar yr un pryd. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae gwasanaethau'r cyngor yn nodi risg, yn cynllunio ac yn diwallu ar gyfer anghenion cymunedau wrth ddatblygu cymunedau cydnerth. Byddwn yn archwilio sut mae data, gweithgareddau cysylltu a mentrau cyfathrebu yn llywio syniadau strategol awdurdodau lleol i ddatblygu hunangynhaliath, a sut y mae cofrestrau risg cymunedol yn llywio cynllunio gweithredol. Mae gan gydnerthedd cymunedol gysylltiadau cryf â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.</p>
<p>9. A yw cynghorau yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwella?</p>	<p>Ni ddeallir yn dda pam a sut y mae cynghorau lleol yn gwella. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn datgan nad oes theori gyffredinol ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus y gellir ei chymhwyso i bob gwasanaeth ac ym mhob cyd-destun er bod cyfoeth o ddulliau gwybodaeth ymarferol sydd wedi bod yn effeithiol (Improving Public Services: Existing Evidence and Evidence Needs 2016). Bydd adolygiad o pam a sut y mae llywodraeth leol yn gwella hefyd o fudd wrth ddatblygu methodolegau archwilio newydd. Her allweddol i lywodraeth leol yw cynnal ei hymrwymiad i gyffredinoliaeth sy'n parchu amrywiaeth, yn hytrach na safoni.</p>
<p>10. Y Gymraeg</p>	<p>Mae rhwymedigaethau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) wedi eu gosod ar gyfrif cyhoeddus yng Nghymru ers cryn amser. O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn rhaid i sefydliadau cyhoeddus gynhyrchu a glynu at gynllun iaith Gymraeg corfforaethol, a oedd yn amlinellu ymrwymadau i ymgymryd â gweithgareddau penodol yn ddwyieithog a hyrwyddo'r iaith yn gyffredinol. Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio dealltwriaeth cynghorau o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â'r trefniadau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Gellid darparu'r astudiaeth hon ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg (neu unrhyw gyfrif olynol).</p>
<p>11. Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr</p>	<p>Mae Sipsiwn a Theithwyr yn un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. O ran iechyd ac addysg, man nhw'n un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig ym Mhrydain. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â hyn a sicrhau cyfle cyfartal i'r holl Sipsiwn/Teithwyr ledled Cymru, ac yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at ddatblygu fframwaith polisi er mwyn darparu gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwelliannau llety; cynllunio; iechyd; ac addysg. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae gwasanaethau cyngor yn cynllunio ac yn diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Byddai hwn yn adolygiad trawsbynciol o wasanaethau'r cyngor a fyddai'n cyffwrdd, er enghraifft, ar addysg, gofal cymdeithasol, tai, cynllunio, cael gafael ar fudd-daliadau a gwastraff.</p>

<p>12. Mynd i'r afael â thlodi plant</p>	<p>Gellir gweld tloidi fel problem barhaol a pharhaus yng Nghymru. Drwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaeth i helpu i ddileu tloidi plant, er mai'r disgwyliad yw y caiff hyn ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar farnu pa mor dda y mae cynghorau a/neu y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn perfformio o ran mynd i'r afael â thlodi plant yn ardal eu hawdurdod lleol a pha un a oes dull digon strategol ganddynt. Bydd yr adolygiad yn ystyried y camau a gymerir i gynnal a darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i helpu i fynd i'r afael â thlodi plant. Byddwn hefyd yn defnyddio deunydd olrhain i ddeall pa mor dda y mae partneriaid yn gweithio i fynd i'r afael ag agweddau ar dlodi plant a nodwyd. Ein deunydd olrhain arfaethedig yw tloidi bwyd a'i effaith ar iechyd gwael.</p>
<p>13. Adolygiad o gynlluniau cynghorau ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol</p>	<p>Pob dydd, cynorthwyr miloedd o ddisgyblion i deithio o'u cartrefi i'r ysgol neu'r coleg gan awdurdodau addysg lleol. Yn 2015-16, gwariodd gynghorau Cymru £113.7 miliwn ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, ond dim ond £5.9 miliwn oedd yr incwm. Y dull mwyaf cyffredin o deithio yw llogi bysiau a thacsis ar gontract ac nid yw darparu tocynnau bws ymhell y tu ôl iddo. Ceir cryn ddadlau o ran y gwasanaeth yn ymwneud â chymhwysedd. Mae gan blant hawl i gludiant am ddim os yw'r daith rhwng eu cartref a'r ysgol yn bodloni meini prawf pellter penodol neu os caiff ei phennu'n anniogel. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried sut y mae cynghorau yn rheoli gwasanaethau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan feincnodi prisiau sy'n cymharu perfformiad a chydymffurfio â chanllawiau polisi diweddar.</p>
<p>14. Swyddogaeth cynghorau mewn twristiaeth</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod oddeutu 10 y cant o'r holl swyddi yng Nghymru yn ymwneud â thwristiaeth a bod oddeutu 6 y cant o werth ychwanegol domestig yn dod o dwristiaeth. Mae twristiaeth yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth dwristiaeth ar gyfer y cyfnod 2013-2020 sy'n ceisio cynyddu effaith economaidd twristiaeth yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth hon yn asesu pa mor effeithiol y mae cynghorau'n datblygu twristiaeth a sut mae camau i ddatblygu twristiaeth yn cael eu cydbwysu â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>
<p>15. Ail-fodelu safonau masnachu</p>	<p>Mae'r gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd mewn cyngor yn cynnwys iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, rheoli llygredd, rheoli plâu, pwysau a mesur, rheoli adeiladu, gwasanaethau cynghori, trwyddedu, diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch ac iechyd anifeiliaid. Gorfodir y rhan fwyaf o'r gyfraith gan wasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol. Byddai'r archwiliad hwn yn adolygu pa mor effeithiol y mae cynghorau yn rheoli newidiadau mewn gwasanaethau Safonau Masnach. Byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar amddiffyn defnyddwyr a pha mor dda y caiff defnyddwyr gwasanaeth eu diogelu rhag twyll. Byddwn hefyd yn ystyried heriau gweithredu gan gyfeirio at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru).</p>

<p>16. Gwasanaethau maethu</p>	<p>Mae gofalwyr maeth yn darparu gwasanaeth hanfodol i filoedd o blant sy'n agored i niwed ledled y wlad, ond mae'r naratif ynghylch gofal maeth yn negyddol amlwg yn rhy aml. Dylid cael cydnabyddiaeth ehangach o swyddogaeth gadarnhaol gofalwyr maeth sy'n gwella bywydau plant sy'n agored i niwed. Bydd yr archwiliad hwn yn asesu effeithiolrwydd awdurdodau lleol: gofal i blant mewn angen y mae angen gwasanaethau maethu arnynt; cymorth i ofalwyr maeth presennol ac ansawdd y trefniadau rheoli; a chamau gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth gofal maeth. Byddai'r adolygiad hefyd yn edrych ar gostau uned ac ansawdd y gwasanaethau presennol (gan gynnwys eu heffaith) i ganfod gwerth am arian wrth ddarparu gofal maeth.</p>
<p>17. Taliadau uniongyrchol</p>	<p>Sefydlwyd Taliadau Uniongyrchol gan Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (1996) a ddaeth i rym fis Ebrill 1997 ac a oedd ar gael ar y cychwyn dim ond i grŵp penodol a oedd yn gymwys ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae manteisio ar Daliadau Uniongyrchol wedi bod yn wael yn hanesyddol yng Nghymru gyda pherfformiad yn llusgo yn sylweddol y tu ôl i Loegr. Mae nifer yr unigolion sy'n cael Taliadau Uniongyrchol a'r swm a werir yn fach o'i gymharu â Lloegr ac nid yw polisiau, arferion a gweithgareddau hyrwyddo awdurdodau lleol yn annog oedolion sy'n agored i niwed i wneud cais am Daliadau Uniongyrchol a'u defnyddio. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried sut y mae awdurdodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau o annog ac ehangu'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Ystyrir cymhariaeth â Lloegr i ganfod pam y mae awdurdodau'n cyflawni lefelau perfformiad uwch yn gyffredinol i nodi dewisiadau y gall awdurdodau lleol yng Nghymru eu mabwysiadu.</p>
<p>18. Y gweithlu gofal cymdeithasol – cynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Mae'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithredu mewn amgylchiadau heriol. Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir gan awdurdodau lleol wedi gostwng gan 17.4% o 19,936 yn 2005-06 i 16,465 yn 2016-17. Er bod gwariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol i oedolion wedi codi o £935.1 miliwn yn 2007-08 i £1.1 biliwn yn 2015-16, mae gwasanaethau yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau yn cynyddu ac mae'r boblogaeth yn heneiddio. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar y newid mewn patrymau cyflogaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru i farnu pa mor dda yw sefyllfa'r gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni ymrwymadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac egwyddorion Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru. Pe byddai'r gwaith hwn yn cael ei gynnal, byddem yn ceisio ei gyfochri yn briodol ag unrhyw waith penodol ar weithlu'r GIG er mwyn cefnogi sylwebaeth ar ddatblygu gweithlu integredig ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol</p>

19. Ailddechrau defnyddio cartrefi ac adeiladau gwag	<p>Mae nifer yr anheddau gwag yn y sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis yn cynyddu yng Nghymru. Rhwng 2009-10 a 2015-16, bu cynnydd o 35% yn nifer y cartrefi gwag, cynnydd o 18,980 o gartrefi preifat gwag yn 2009-10 i 25,628 yn 2015-16. Yn gyffredinol, gwelodd 14 o awdurdodau gynnydd mewn anheddau preifat a fu'n wag am dymor hir yn ystod y cyfnod hwn. Bydd yr adolygiad hwn yn adolygu cynnydd awdurdodau lleol o ran lleihau cartrefi ac adeiladau gwag ac effeithiolrwydd y dulliau presennol. Bydd yr adolygiad yn asesu'r manteision ariannol o aildefnyddio cartrefi ac adeiladau gwag gan edrych ar ddadansoddiad cost a budd ar gyfer awdurdodau lleol wrth flaenoriaethu'r gwaith hwn. Byddem yn ceisio nodi astudiaethau achos o'r tu allan i Gymru hefyd er mwyn datblygu nodyn cyngor a phhecyn cymorth ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.</p>
---	--